

Atodiad 1 – Ymgynghoriad am Reoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) Dyddiad Cau – 24 Medi 2015

Materion Penodol ar gyfer yr Ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb

i'r

Ymgynghoriad

Eich enw: Michael Evans.

Sefydliad (lle bo hynny'n berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru – Natural Resources Wales.

E-bost/Rhif Ffôn

Michael.Evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

- 0300 654272.

Eich cyfeiriad: Tŷ Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP

Cwestiwn 1: *Ydych yn credu y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn amddiffyn yr amgylchedd dŵr yn well?*

Ydw: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheolaethau newydd ar gyfer storio olew yng Nghymru, a chyflwyniad rheoliadau sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer cyfleusterau storio olew. Rydym yn credu y bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau lle mae dŵr yn cael ei lygru gan olew.

Rydym yn credu bod agweddau ar y rheoliadau arfaethedig y gellid eu cryfhau, a/neu fod rhagor o gamau rhagnodol y gellid eu nodi, er mwyn amddiffyn yr amgylchedd dŵr ymhellach.

Mae trafodaethau rhagymgynghorol eisoes wedi nodi y gallai fod yn fwy anodd, neu hyd yn oed yn amhosibl, gorfodi rhai o'r gofynion ychwanegol a gynigiwyd (gweler yr ymateb i Gwestiwn 6), a dyma pam nad ydynt eisoes wedi cael eu cynnwys yn y cynigion. Cydnabyddir hefyd ei bod yn ddymunol i'r Rheoliadau fod yn gynnil, a heb fod yn rhy amleiriog. Eto i gyd, mae'r sylwadau wedi'u cofnodi yma er mwyn ichi eu hystyried.

Cwestiwn 2: *Oes unrhyw weithgareddau, ar wahân i'r rhain a nodir yn Rheoliad drafft 4, a ddylai gael eu heithrio o'r Rheoliadau?*

Nac oes

Sylwadau:

O ystyried bod ystadegau System Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn nodi bod nifer uchel o ddigwyddiadau a gollyngiadau yn perthyn i danciau storio olew domestig, rydym yn credu y gellid gostwng gollyngiadau yn llawer mwy pe na bai unrhyw eithriadau. Er enghraifft, mae data ar achos digwyddiadau'n nodi

bod rhagor o ddigwyddiadau sy'n perthyn i drigfannau domestig nag sydd yn y sector amaethyddol. Mae'n bosibl, fodd bynnag, bod lleoliad gwledig ffermydd yn golygu bod rhagor o ollyngiadau olew nad ydynt yn cael eu hadrodd.

Os bydd sefydliadau domestig yn cael eu heithrio, rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar y cyd er mwyn hyrwyddo cyngor gan Ymgyrch Gofalu am Olew y DU, fel y nodir yn y wefan gysylltiedig: www.oilcare.org.uk

Cwestiwn 3: *Ydy'r amserlenni ar gyfer darparu cynhwysyddion eilaidd ar gyfer tanciau sy'n bodoli eisoes yn rhesymol?*

Ydyn, ar y cyfan - ond gweler isod.

Gan fod rheoliadau tebyg wedi bod mewn grym o dan Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol ers 1991, ystyrir bod pedair blynedd yn rhesymol ar gyfer y sector amaethyddol, lle nad yw tanciau wedi'u lleoli mewn mannau risg uchel – er ei bod yn bosibl bod dwy flynedd yn rhy hir lle mae'r risg yn uchel. Er mwyn amddiffyn mannau sensitif yn well, byddai'n well pe na bai amserlen benodol ar gyfer tanciau wedi'u lleoli o fewn 10 medr i ddyfrgwrs, neu o fewn 50 medr i darddell, ffynnon, neu ddyfrdwl. Dylent gael eu hail-leoli neu eu newid yn ôl cyfarwyddyd y rheoleiddiwr (Cyfoeth Naturiol Cymru). Fel arall, gall hyn awgrymu ein bod yn derbyn y sefyllfa hon, ac yn caniatáu lleoli tanciau yn y mannau sensitif, er bod hynny am ddwy flynedd yn unig. Mae hyn yn groes i'n dull hanesyddol ni o weithredu o dan Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi "Darpariaethau Trawsnewidiol", sydd, er enghraifft, yn gofyn am welliannau i strwythurau sy'n bodoli eisoes o fewn dwy neu bedair blynedd. Byddai gorfodi hyn yn effeithiol yn gofyn i reoleiddwyr wybod lle mae'r holl gyfleusterau storio masnachol sy'n bodoli eisoes, a chofnodi a monitro amseriad y gwelliannau yn ôl yr angen. Er mwyn osgoi prosiect beichus o'r fath, byddai angen arnom bolisi/cytundeb strategol ynglŷn â sut y dylid cyflawni'r canlyniadau.

Cwestiwn 4: *Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y sectorau a fydd yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau?*

Hoffwn

Storio Olew: 3 c ii Nodir yma y bydd depos dosbarthu olew yn cael eu heithrio. Er bod "Canllawiau" a "Chodau Ymarfer" ar gyfer y DU sy'n bodoli eisoes, ynglŷn â'u dylunio a'u hadeiladu, ni fyddai dibynnu ar y sector i lynu at y rhain mor effeithiol ag y byddai gorfodi'r sector hwnnw i weithredu yn ôl y Rheoliadau.

Ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau Adnoddau Dŵr Cymru 1991 (adolygydd 2010) (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol): Er ein bod yn cefnogi'r rhain ar y cyfan, yn enwedig y bwriad i ddiddymu'r eithriad presennol ar gyfer cyfleusterau olew tanwydd amaethyddol a oedd yn bodoli cyn 1991, hoffem wneud y sylwadau canlynol:

- **Sylwad:** Er y bydd gan ffermwyr – yn dibynnu ar agosrwydd eu storfa danwydd i dyfrgyrsiau, tarddellau, ffynhonnau neu ddyfrdyllau – hyd at naill ai dwy flynedd neu bedair blynedd i gydymffurfio â'r gofynion newydd, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hysbysu mewn ffordd effeithiol am y newidiadau sydd ar y gweill yn gynnwys iawn yn y broses. Er enghraifft, bod y trothwy ar gyfer byndio yn cael ei leihau o 1,500 litr i 200 litr, a bod yr eithriad ar gyfer cyfleusterau a oedd yn bodoli cyn 1991 yn cael ei ddiddymu.
- **Pryder:** Roedd Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yn mynnu bod tanciau tanwydd yn cael eu lleoli ddeg metr i ffwrdd o'r ddyfrgyrsiau y gallai olew tanwydd fynd iddynt pe bai'n dianc, ond nid yw hyn yn cael ei nodi yn y Rheoliadau arfaethedig. Mae hyn yn codi'r peryg o ddyfroedd a reolir gael eu llygru. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar leoliadau er mwyn amddiffyn tarddellau, ffynhonnau, dyfrdyllau neu gyflenwadau dŵr preifat, ac o'r herwydd mae perygl uwch i'r amgylchedd. Yn ogystal, mewn gwirionedd mae'r darpariaethau trawsnewidiol yn caniatáu i'r tanciau gael eu lleoli yn y manau hyn am hyd at ddwy flynedd. Byddai hyn yn tanseilio ein gwaith gorfodi blaenorol ar ffermydd. Gallai hefyd awgrymu bod lleoli tanciau yn y manau sensitif hyn bellach yn dderbyniol.
- Er y newidiadau i Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, nid oes cyfeiriad at yr angen i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn i gyfleuster sy'n newydd, wedi'i ehangu neu wedi'i ailadeiladu gael ei ddefnyddio (hynny yw, ar gyfer storio olew yn yr achos hwn). Oes unrhyw gynlluniau i newid y cyfnod ar gyfer hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am waith adeiladu i 14 diwrnod cyn dechrau ar y gwaith (yn unol â gofynion yr Alban)? Byddai hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gyda'r ffermwr a'r adeiladwr er mwyn sicrhau bod strwythurau'n cael eu dylunio'n unol â Safon Brydeinig 5502 - hynny yw, wedi'u hadeiladu i barhau am o leiaf 20 mlynedd ac wedi'u lleoli'n briodol o ran y peryg i ddŵr.
- Yn adolygiad Llywodraeth Cymru o Reoliadau Adnoddau Dŵr Cymru 2010 (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol), a gyhoeddwyd ar 26 Awst 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ailadrodd yr ymroddiad a wnaed ganddynt i newid y cyfnodau o rybudd sy'n ofynnol cyn gosod strwythurau. Nodwyd y mater hwn yn ymateb i Adolygiad 2012 Llywodraeth Cymru o Barthau Perygl Nitradau yng Nghymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl y byddai'r ymroddiad hwn yn cael ei gynnwys – fodd bynnag, nid yw wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau arfaethedig hyn.

Cwestiwn 5 – Ydych yn credu bod y darpariaethau gorfodi'n rhesymol ac yn effeithiol?

Ydw. Er hynny, o ystyried y darpariaethau trawsnewidiol arfaethedig, a'r newidiadau i Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y bydd yn rhaid iddo ddefnyddio ei bwerau hysbysu gwaith eraill o dan Reoliadau Gwaith Gwrthlygredd 1999. Gall defnyddio'r bwerau hyn fod yn gymharol gymhleth a defnyddio mwy o amser

na'r prosesau cyfredol o dan Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol ar gyfer gwella cyfleusterau storio ffermydd.

Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn ychwanegu at gyfrifoldebau gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n debygol y gallai timau Rheoleiddio a Chynllunio Adeiladu awdurdodau lleol yn cynnig cryn gymorth wrth leihau'r llwyth gwaith rheoleiddio posibl trwy sicrhau, trwy eu cyfrifoldebau, bod adeiladau newydd ar gyfer storio olew – a'r rhai sy'n cael eu newid – yn glynu yn gaeth wrth y Rheoliadau newydd. Byddai'n dda gan Gyfoeth Naturiol Cymru pe gallai Llywodraeth Cymru roi arweiniad clir yn hyn o beth.

Cwestiwn 6: *Oes gennych unrhyw sylwadau ar agweddau penodol ar y Rheoliadau arfaethedig, neu ar y gyfundrefn yn gyffredinol?*

Oes

Adwaenir Cyfoeth Naturiol Cymru fel Corff Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyfoeth Naturiol dros Gymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ôl eu trefn. Gofynnwn ichi ddefnyddio 'Cyfoeth Naturiol Cymru' ar bob adeg.

Yn ôl profiad Cyfoeth Naturiol Cymru, mae llawer o bobl yn prynu tanciau mawr dau groen o dan yr argraff anghywir eu bod yr un peth â "System Tanc â Byndio Integredig" (byddwch yn cydnabod hyn yn eich nodiadau cyfarwyddyd). Er bod Adran 4 (3) yn nodi'r gofynion ar gyfer lleoliad offer ategol y tanc, o ystyried mynychder y broblem, efallai y byddai'n ddefnyddiol gwneud y gwahaniaeth yn glir yn y Rheoliadau. Efallai y gellid cyflawni hyn o dan Adran 2: Dehongliad. Er enghraifft, *"Mae 'System Tanc â Byndio Integredig' yn cyfeirio at system storio olew lle mae falfiau, ffenestri arsylwi, neu unrhyw offer ategol eraill a allai achosi gollyngiad yn cael eu lleoli o fewn cynhwysydd arall. Nid yw llawer o danciau dau groen cyffredin sydd ar gael yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn."*

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd ar y Rheoliadau'n argymhell, lle bo hynny'n ymarferol, y dylid lleoli strwythurau storio o leiaf 50 medr i ffwrdd o ffynnon neu ddyfrdwl. Lle mae'r mater hwn yn cael ei nodi, rydym yn argymhell ei fod yn cael ei ail-eirio i ddweud "o leiaf 50 medr i ffwrdd o unrhyw darddell, ffynnon neu ddyfrdwl". Yn ogystal, oni bai bod gwneud felly'n hollol anymarferol, rydym yn argymhell bod strwythurau'n cael eu lleoli o leiaf 50 medr i ffwrdd o ffynonellau dŵr daear sy'n cael ei yfed gan bobl, neu ei ddefnyddio ar gyfer cynnyrch llaeth/bwyd, a Pharthau Amddiffyn Ffynonellau (parth a ddiffinnir gan amser teithio o 50 diwrnod i ddŵr gyrraedd man tynnu dŵr daear, sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion domestig neu gynhyrchu bwyd). Er enghraifft, mae darpariaethau trawsnewidiol (Adran 7(a)(ii) y Rheoliadau drafft) yn cyfeirio at danciau sydd wedi'u lleoli'n llai na 50 medr i ffwrdd o ffynnon neu ddyfrdwl. Felly, er mwyn cysondeb â'r geiriad yn Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol, byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn cael ei egluro er mwyn cyfeirio at "mannau tynnu dŵr o haenau tanddaearol" ac ati.

Mae'r Rheoliadau Storio Olew ar gyfer Lloegr yn cynnwys pob tanc domestig sy'n dal mwy na 3,500 litr. Er yr ystyrir bod tanciau sydd cymaint â hynny'n brin yng Nghymru, nid ydym yn sicr a ydynt wedi eu hepgor o Reoliadau Cymru o fwriad.

Mae Rheoliad 3a yn nodi nad yw'r Rheoliadau'n cynnwys cynwysyddion sy'n dal 200 litr neu lai, sy'n cael eu storio yn unol â thrwydded amgylcheddol. Gallai hyn awgrymu bod angen system byndio ar gyfer unrhyw danc olew nad yw'n gofyn am drwydded amgylcheddol, ni waith beth yw ei faint. Efallai y dylai'r cyfeiriad at y drwydded amgylcheddol fod yn ei isadran eu hun.

Rheoliad 3(c)(i): gellid gwella eglurdeb pe baech yn tynnu'r gair "olew" ar ôl y gair "cynhwysydd".

Yn Adran 5(3) y Rheoliadau sy'n trafod pibelli llenwi, pibelli tynnu neu bibelli cyflenwi lle mae'r rhain wedi'u lleoli uwchben y ddaear, teimlir nad yw'r geiriau "dylent gael eu hategu'n briodol" yn ddigon penodol. Dylid ehangu hyn er mwyn sicrhau bod y gosodwyr yn lleoli'r pibelli i ffwrdd o'r risg o wrthdrawiad, a'u bod yn gosod ategion ar strwythurau solet nad ydynt yn symud.

Gall gollyngiadau mawr digwydd pan fydd y man llenwi y tu allan i'r bwnd. Mae Rheoliad 4 (4) (nid yw'n eglur a yw hyn yn cyfeirio at danciau "symudol" a drymiau) yn mynnu bod hambwrdd diferynnau'n cael ei ddefnyddio o dan y man llenwi. Gan nad yw bob cwmni sy'n cyflenwi olew wedi mabwysiadu'r system "Pasbort Gyrrwr", a'r hyfforddiant wedi'i lunio er mwyn lleihau digwyddiadau yn ystod y broses llenwi, yn unol â Rheoliad 5 (4), byddai'n syniad da mynnu bod y man llenwi bob amser yn cael ei oruchwylio, lle mae y tu allan i'r bwnd a lle na ellir ei weld o'r mecanwaith llenwi.

Adran 5. Mae (3) (b) (iii) a (v) ar ganfod gollyngiadau bron â bod yn gwrthddweud ei gilydd, yn ôl pob golwg. Os nad yw system monitro gollyngiadau'n orfodol, ni fyddai gwiriadau blynyddol ar bob pibell yn afresymol, a byddai hyn yn llawer gwell ar gyfer yr amgylchedd na'r pum mlynedd a'r deng mlynedd a nodir.

Ynglŷn â rheoli dŵr o fewn y byndiau, y toeau, amllder archwiliadau, symud a gwaredu gwastraff ac ati, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddwyr i ofyn am gyngor, neu ddarparu cysylltiad â'r we a allai dorri neu ddyddio, a ellid rhoi rhywbeth eithaf manwl yn y Rheoliadau?

Cwestiwn 7: *Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech nodi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi derbyn sylw penodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:*

Nodwch yma:

Nodiadau cyfarwyddyd (Atodiad 4): Nid ydynt yn trafod yr angen i danciau storio gael eu cymeradwyo o dan y Rheoliadau adeiladu, ac i fodloni gofynion Dogfen Gymeradwy J. Fydd Dogfen Gymeradwy J y Rheoliadau Adeiladu'n cael ei hadolygu yng Nghymru er mwyn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth hon, gan ei fod yn wahanol i'r un sydd ar waith yn Lloegr?

Mae paragraff 9 (eithriadau) yn cyfeirio at "storio olew ar safle sy'n cael ei ddefnyddio'n hollol neu'n bennaf fel trigfan breifat unigol". Oes angen defnyddio'r gair "unigol"? Mae'n debygol o achosi dryswch i ddefnyddwyr, ac

mewn sefyllfa orfodi lle mae mwy nag un drigfan breifat yn rhannu tanc. Yn ôl pob golwg, nid yw'r Rheoliadau drafft yn gwahaniaethu, ac nid yw'n glir a yw'r eithriad yn cyfeirio at danc sy'n cyflenwi trigfan breifat unigol, neu unrhyw danc sy'n cyflenwi trigfannau preifat, ni waith faint o dai sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae Atodiad 3 (Asesiad Effaith Rheoleiddiol) yn nodi ar dudalen 4 y "*bydd yn rhaid i gyfleusterau storio newydd gydymffurfio ymhen chwe mis i'r Rheoliadau ddod i rym*". Gan fod "cyfleusterau storio newydd" yn cael eu nodi, nid ydym yn siŵr pam na ddisgwylir cydymffurfiad ar unwaith.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi – ar y we neu mewn adroddiad. Os hoffech chi gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ticiwch yma: